

ALYN  
NICHOLLS  
CYNLLUNIWR TREF SIARTREDIG

ARCHWILIAD CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y  
CYD YNYS MÔN A GWYNEDD

GWRANDAWIAD SESIWN 15  
DYRANIADAU A SAFLEOEDD AMGEN  
YNYS MÔN - DE

SYLWADAU YSGRIFENEDIG AR RAN  
HUGHES BROS LIMITED - RHIF ADNABOD  
3084

YNGHYLCH TIR YNG NGHAEAU BODELIS  
(CYFEIRNOD SAFLE SP833)

AWST 2016

140 Denby Lane  
Upper Denby  
Huddersfield HD8 8UN

Ffôn: 01484 860000  
[www.alynnicholls.com](http://www.alynnicholls.com)  
[akn@alynnicholls.com](mailto:akn@alynnicholls.com)

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r cyflwyniad hwn ar gyfer Gwrandawriad Sesiwn 15 yn seiliedig ar y cynnig bod rhaid dyrannu tir ychwanegol ar gyfer tai o fewn y Cynllun Datblygu Lleol ac y dylai Llangefni fel canolfan wasanaeth drefol ddarparu lefel uchel o'r angen am dai er mwyn hwyluso'r defnydd gorau o adnoddau ac isadeiledd ac i gyflwyno patrwm datblygu cynaliadwy.
- 1.2 Yn ogystal, y Cynllun Datblygu Lleol sydd ar fin cael ei gyhoeddi yw'r cyfrwng priodol ar gyfer diffinio ffiniau aneddiadau ac ardaloedd cefn gwlad sydd i'w gwarchod rhag datblygiad. O ganlyniad, pan fydd dyraniadau tai arfaethedig yn ffinio â'r ardal adeiledig bresennol, ni fydd gwrthwynebiad ar y sail bod tir yn gorwedd tu allan i ffiniau aneddiadau yn rheswm dilys i wrthod y dyraniad arfaethedig.

## 2. MATERION I'W TRAFOD

### ***a. Manylion Safle***

- 2.1 Cyfeirir at y safle fel "tir yng Nghaeau Bodelis" ac mae ganddo'r cyfeirnod SP833 ar Gofrestr Safleoedd Posib y Cyngor. Fe'i lleolir yn union i orllewin ardal adeiledig Llangefni ac mae i'r de o Ffordd Cildwn (y B5109) ac i orllewin y tai sy'n wynebu'r B4422. Ceir cynllun yn darlunio'r safle yn Atodiad 1.

### ***b. Statws Presennol a Defnydd Arfaethedig***

- 2.2 Caiff y safle ei rannu yn dri chae ar hyn o bryd ac fe'u defnyddir fel tir pori. Y defnydd arfaethedig yw estyniad cynaliadwy i Langefni er mwyn darparu datblygiad tai.

### ***c. Maint y Safle a Graddfa'r Datblygiad Arfaethedig***

- 2.3 Mae'r Cyngor wedi amcangyfrif bod cyfanswm arwynebedd y safle oddeutu 7.5 hectar. O ystyried yr angen i ddarparu prif gyflenwad dŵr sy'n croesi'r safle, darparu llecyn agored, cyfleusterau chwarae, a thirlunio strwythurol, a chaniatáu lle ar gyfer unrhyw welliannau angenrheidiol i'r briffordd megis lledu'r ffordd, rhagwelir y byddai modd datblygu oddeutu 5 hectar. Mae hyn yn debygol o ddarparu 150 o gartrefi. Mae graddfa'r datblygiad yn rhoi'r cyfle i wneud cyfraniad sylweddol at ddiwallu'r angen am gartrefi cost isel cyntaf a fforddiadwy mewn lleoliad hynod gynaliadwy.

### ***d. Rhwystrau i'r Datblygiad***

- 2.4 Nid oes rhwystrau i ddatblygu'r safle o fewn cyfnod y cynllun. Mater i ddyluniad manwl y datblygiad yw cyfyngiad y prif gyflenwad dŵr yn croesi'r safle a nodwyd gan Dŵr Cymru. O ran priffyrdd, mae gan y safle ffrynt adeiladau helaeth ar Ffordd Cildwn (B5109) ac mae tir ar gael i hwyluso unrhyw welliannau priffyrdd allai fod eu hangen.

### ***e. Amserlenni Disgwyliedig ar gyfer Cyflwyno***

- 2.5 Yr amserlen a osodwyd gan y broses gynllunio fydd yn pennu pryd y gellir darparu tai ar y safle. Byddai'n rhesymol disgwyl i'r cartrefi cyntaf ar y safle fod ar gael yn nechrau 2019. Yna,

mae'r gyfradd adeiladu yn debygol o fod oddeutu 30-40 annedd bob blwyddyn, yn dibynnu ar gyflyrau'r farchnad.

***f. A ddylid cynnwys y Safle o fewn Ffin yr Anheddiad a/neu ei Ddyrannu?***

2.6 Byddai'r safle yn estyniad rhesymegol i'r anheddiad yn Llangefni. Dylid dyrannu'r safle a'i gynnwys o fewn ffin yr anheddiad.

***g. A yw'r Safle'n angenrheidiol i sicrhau bod y CDLI yn gadarn?***

2.7 Rydym wedi nodi mai'r cynigiad sy'n tanategu'r cyflwyniad hwn yw bod rhaid dyrannu tir ychwanegol i sicrhau bod yr angen am dai a gyfyd yn Ynys Môn yn cael ei ddiwallu. Mae dyrannu'r safle ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod yr angen am dai yn cael ei ddiwallu yn unol â strategaeth gyffredinol y cynllun, er mwyn cefnogi statws Llangefni fel canolfan wasanaeth drefol ac i sicrhau patrwm datblygu cynaliadwy ble gall tai newydd hybu isadeiledd a gwasanaethau presennol a hefyd leihau'r galw am deithio i waith, gofal iechyd, addysg a gweithgareddau eraill.

***h. Cyfraniadau at Nodau ac Amcanion Strategol y Cynllun***

2.8 Amlinellir strategaeth y cynllun ym mharagraff 6.10 ac mae'n canolbwyntio datblygiad mewn lleoliadau sy'n darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer cyflwyno amcanion cynaliadwy. Adnabyddir Llangefni fel canolfan wasanaeth drefol ac mae'n eilaidd i Fangor yn unig (canolfan is-ranbarthol) o fewn yr hierarchiaeth aneddiadau.

2.9 Mae'r cynigion yn gyson gyda Pholisi Strategol SP5: Datblygu Cynaliadwy a'r Strategaeth Aneddiadau a gynhwysir ym Mholisi SP15. Yn ogystal, nid yw'r safle yn destun unrhyw gyfyngiadau cynllunio na pholisiâu sy'n dangos ei fod yn gwbl anaddas ac na ddylai gael ei ddatblygu.

***i. A yw Proses Dewis Safleoedd y Cyngor yn rhesymol a phriodol?***

2.10 Mae arfarniad y Cyngor o'r safle hwn wedi dangos y bydd gofyn efallai am fân welliannau priffyrdd (y gellir eu darparu heb drafferth) ac y byddai prif gyflenwad dŵr sy'n croesi'r safle yn cyfyngu dwysedd datblygiad. Mae hefyd yn cyfeirio at achosion unigol o lifogydd yn y system garthffosiaeth gyhoeddus. Mae'r mater draenio yn nodwedd gyffredin o safleoedd yn Llangefni ac nid yw wedi ei gyfyngu i'r lleoliad hwn. Mae graddfa'r datblygiad yn debygol o sicrhau y gellir darparu draenio priodol. Mae asesiad y Cyngor hefyd yn nodi bod y safle yn agos at Ysgol Corn Hir ond nad yw o fewn pellter cerdded i ganol y dref a'i chyfleusterau cysylltiedig. Maent yn nodi y byddai safleoedd mwy addas a chanolog efallai yn Llangefni.

2.11 Mae'r Cyngor wedi gofyn am Arfarniad Cynaliadwyedd er mwyn ategu'r sylwadau. Caiff hwn ei atodi yn Atodiad 2. Mae ysgolion a chanolfannau hamdden yn agos at y safle. Mae canol y dref lle ceir siopau a gwasanaethau eraill oddeutu 1 cilomedr i ffwrdd. Nid yw'r pellter hwn yn golygu y bydd mynd am dro o'r safle i ddefnyddio chyfleusterau yng nghanol y dref yn annhebygol nac yn afresymol. Ceir gwasanaeth bws hefyd sy'n mynd heibio'r safle fyddai hefyd yn ei gysylltu â chanol y dref.

- 2.12 Ymddengys na fu unrhyw gymhariaeth wrthrychol rhwng y safle hwn ac eraill a ddewiswyd i'w datblygu o ran eu hagosrwydd at ganol y dref a defnyddiau allweddol eraill megis cyflogaeth, gofal iechyd, addysg a defnyddiau hamdden.

***j. A ystyriwyd y Dyraniad Amgen o ran yr Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol?***

- 2.13 Rydym wedi nodi bod Arfarniad Cynaliadwyedd wedi'i anfon at y Cyngor yn cefnogi'r sylwadau hyn. Dengys hyn y byddai dyraniad ar y safle yn cyfrannu at amcanion cyflwyno patrwm datblygu cynaliadwy ac y byddai'n gyson â strategaeth y cynllun. Felly, mae dyrannu'r safle yn annhebygol o gael effeithiau sylweddol sy'n gofyn am ail-asesu'r cynllun cyfan.

**ATODIAD 1**

**Cynllun yn Dangos y Safle**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd**  
**Joint Local Development Plan**  
**Cofrestr Safle Posib / Candidate Site Register**

Cyfeirnod/ Reference	: <b>SP833</b>
Enw'r Safle / Site Name	: <b>Caeau Bodelis Fields</b>
Lleoliad / Location	: <b>Llangefni</b>
Cyfeirnod Grid / Grid Reference	: <b>446, 760</b>
Maint (ha) / Size (ha)	: <b>7.52</b>
Defnydd a Awgrymir / Suggested Use	: <b>Tai / Housing</b>

## ATODIAD 2

### Arfarniad Cynaliadwyedd

## Matrics Arfarniad Cynaliadwyedd

Enw'r Safle: **Caeau Bodelis, Llangefni**

Arwynebedd Safle: 7.52 ha.

Amcan AC	Asesiad	Crynodeb
<p>1. Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth (<i>Pynciau AAC: bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd</i>)</p>	<p>Caiff yr ardal ei defnyddio ar hyn o bryd er dibenion amaethyddol (tir pori). Ceir gwrych presennol ar y ffin ddeheuol ac mae'n croesi'r safle.</p> <p>Er bod y safle'n ffinio â thir agored i'r de, nid yw'n ffurfio rhan o goridor gwyrdd.</p> <p>Ac eithrio gwrych, nid oes unrhyw gynefin na rhywogaeth bwysig â blaenoriaeth yn bresennol ar y safle.</p> <p>Nid oes unrhyw nodweddion topograffig na daearegol penodol yn bresennol.</p>	<p>Mae potensial gan ddatblygiad i arwain at golli cynefin o wrychoedd. Fodd bynnag, mae'r safle o raddfa ddigonol i sicrhau bod gwrych yn gallu cael ei gadw'n sylweddol fel rhan o fframwaith y dirwedd a rhwydwaith o ofod amwynder o fewn y safle lle byddai cyfle i fwyhau bioamrywiaeth.</p>
<p>2. Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol (<i>Pynciau AAC: iechyd pobl, poblogaeth</i>)</p>	<p>Lleolir y safle gyferbyn ag ardal adeiledig Llangefni ac mae ganddo'r potensial i gynnwys estyniad sylweddol i'r ardal drefol.</p> <p>Byddai datblygiad yn atgyfnerthu'r anheddiad, yn lleihau'r galw am deithio, yn cefnogi gwasanaethau lleol, yn cyfrannu at fywiogrwydd a hyfywdra canol y dref ac yn cyfrannu at batrwm datblygu cynaliadwy.</p> <p>Byddai'r safle'n cyfrannu at ddiwallu ystod o anghenion tai, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer y farchnad agored a fforddiadwy, mewn lleoliad cynaliadwy. Byddai lleoliad y safle'n hyrwyddo rhyngweithio cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol. Byddai argaeledd tai modern o ansawdd uchel ar y safle, yn agos at gyflogaeth yn Llangefni, yn cyfrannu at leihau nifer y bobl o oed gwaith sy'n</p>	<p>Mae lleoliad y safle yn galluogi i estyniad cynaliadwy gael ei ddatblygu ar gyfer yr ardal adeiledig gan ddarparu ystod o fathau o dai i ddiwallu gofynion lleol.</p> <p>Mae gan y safle hygyrchedd uchel i ysgolion, ond mae ar ymylon neu o fewn pellter cerdded hawdd i gyfleusterau eraill. Fodd bynnag, lleolir y safle ar ddau brif lwybr bws sy'n gwasanaethu Canol Tref Llangefni.</p> <p>Ni cheir unrhyw rwystrau hysbys o ran cyflwyno'r datblygiad.</p>



	<p>allfudo.</p> <p>Mae lleoliad y safle yn cyd-daro â strategaeth gyffredinol y CDLI ar y Cyd i ganolbwyntio datblygiadau mewn Prif Ganolfannau Gwasanaeth.</p> <p>Nid oes gan y safle unrhyw werth fel gofod agored neu ar gyfer hamdden ar hyn o bryd.</p> <p>Nid yw'r safle wedi cael ei ddatblygu o'r blaen nac wedi'i ddefnyddio allai greu risg o halogiad.</p> <p><b>Agosrwydd at wasanaethau:</b></p> <p><i>Swyddfa'r Bost</i> 1,200m</p> <p><i>Siop gyfleus:</i></p> <p><i>Spar (Canol Tref Llangefni)</i> 1,100m</p> <p><i>Ysgolion:</i></p> <p><i>Ysgol Gyfun Llangefni</i> 500m</p> <p><i>Ysgol Gynradd Corn Hir</i> 400m</p> <p><i>Archfarchnadoedd:</i></p> <p><i>Asda, Llangefni</i> 1,350m</p> <p><i>Lidl, Llangefni</i> 1,500m</p> <p><i>Spar, Llangefni</i> 1,100m</p> <p><i>Meddygfa:</i></p> <p><i>Meddygfa Tal y Bont (Canol Tref Llangefni)</i> 1,000m</p> <p><i>Fferyllfa:</i></p> <p><i>Boots, Stryd Fawr, Llangefni</i> 1,100m</p> <p><i>Roberts, Stryd Fawr, Llangefni</i> 1,100m</p> <p><i>Deintydd:</i></p> <p><i>Meddygfa Ddeintyddol Glyn-Derw</i> 1,000m</p> <p><i>Man Chwarae</i> <i>Amherthnasol – gallai'r datblygiad ar y safle ddarparu man chwarae.</i></p> <p><i>Canolfan Hamdden</i> 700m</p> <p><i>Ysbyty</i> 1,600m</p> <p>Mae'r safle yn ymyl prif lwybrau bws.</p> <p>Nid oes unrhyw botensial i effeithiau andwyol godi o ddefnyddiau tir cystadleuol.</p>	
<p>3. Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu</p>	<p>Lleolir y safle ar gyrion Llangefni. Mae'n lleoliad cynaliadwy pan fydd galw am deithio yn lleihau. Fe'i lleolir ar brif lwybrau bws ac mae o fewn</p>	<p>Mae'r safle yn addas ar gyfer datblygiad o safbwynt priffyrdd. Fe'i lleolir hefyd ar brif lwybr bws ac mae o fewn pellter cerdded i Ganol Tref Llangefni</p>

<p><i>(Pynciau AAC: ffactorau hinsawdd, aer)</i></p>	<p>pellter cerdded i Ganol Tref Llangefni. Mae'n debygol y bydd angen mân welliannau priffyrdd i hwyluso mynediad cerbydol priodol i'r safle, ond fel arall, mae'r rhwydwaith priffyrdd yn debygol o allu ymdopi â'r traffig fydd yn cael ei greu wrth ddatblygu'r safle.</p> <p>Nid yw'r safle mewn perygl o lifogydd.</p>	<p>sy'n darparu dewis o ddulliau teithio. Nid yw llifogydd yn debygol o ddigwydd ar y safle.</p>
<p>4. Cadw, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg <i>(Pwnc AAC: treftadaeth ddiwylliannol)</i></p>	<p>Byddai datblygiad yn atgyfnerthu'r anheddiad, yn cyfrannu at batrwm datblygu cynaliadwy ac yn cefnogi cyfleusterau cymuned leol.</p> <p>Byddai'r safle'n cyfrannu at ddiwallu ystod o anghenion tai gan gynnwys darpariaeth ar gyfer y farchnad agored a fforddiadwy, mewn lleoliad cynaliadwy. Byddai lleoliad y safle'n hyrwyddo rhyngweithio cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol.</p>	<p>Mae'n bosib y bydd datblygu'r safle yn cael effaith positif ar yr iaith Gymraeg drwy ddarparu cymysgedd o dai mewn lleoliad cynaliadwy, yn agos at gyfleusterau cymunedol presennol.</p>
<p>5. Cadw, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol <i>(Pwnc AAC: treftadaeth ddiwylliannol)</i></p>	<p>Ni ddiogelir unrhyw ran o'r safle gan ddynodiadau tirwedd, ecolegol, hanesyddol na diwylliannol.</p> <p>Ni fyddai datblygu'r safle yn effeithio ar olygfeydd pwysig.</p> <p>Mae datblygu ar y safle yn rhoi'r cyfle i wella cyrion Llangefni.</p>	<p>Ar y cyfan, byddai datblygiad ar y safle yn niwtral ond ceir potensial i gyflwyno man effeithiau positif drwy wella gosodiad y Dref a'r mynediad iddi.</p>
<p>6. Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol <i>(Pwnc AAS: Poblogaeth)</i></p>	<p>Byddai lleoliad y safle yn sicrhau estyniad cynaliadwy i ardal adeiledig Llangefni.</p> <p>Byddai datblygiad preswyl yn creu cyflogaeth yn ystod y cyfnod adeiladu.</p> <p>Byddai preswylwyr yn creu galw am wasanaethau fyddai'n cefnogi hyfywra cyfleusterau lleol a bywiogrwydd a hyfywra canol tref Llangefni.</p>	<p>Byddai gan ddatblygiad preswyl ar y safle'r budd o greu galw i gefnogi cyfleusterau lleol a bywiogrwydd a hyfywra canol trefn Llangefni.</p> <p>Byddai cyflogaeth yn cael ei greu yn ystod cyfnod adeiladu 'r datblygiad.</p>

	<p>Mae lleoliad y safle yn Llangefni yn agos at fannau cyflogaeth presennol. Byddai gan ddatblygiad tai ar y safle yn agos at gyflogaeth y potensial i leihau'r galw am deithio ac yn darparu gweithlu posib i gyflogwyr presennol.</p>	
<p>7. Darparu tai o ansawdd da, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol (<i>Pwnc AAS: poblogaeth, iechyd pobl</i>)</p>	<p>Mae'r safle yn rhoi cyfle i sicrhau y bydd tai'n cael eu darparu er mwyn diwallu anghenion (gan gynnwys darpariaeth o dai fforddiadwy) mewn lleoliad cynaliadwy sy'n gyson gyda strategaeth y Cynllun i ganolbwyntio datblygiadau mewn Canolfannau Gwasanaeth Trefol.</p> <p>Mae maint y safle'n ddigon mawr i greu datblygiad cynaliadwy, o ansawdd uchel, gyda lefelau priodol o fannau hamdden a mannau agored eraill.</p> <p>Gall fframwaith cynlluniedig ar gyfer datblygiad ddefnyddio ardaloedd o fewn y safle lle na fyddai datblygiad yn digwydd efallai oherwydd presenoldeb prif gyflenwad dŵr, ar gyfer mannau hamdden ac amwynder.</p> <p>Gall y rhwydwaith priffyrdd lleol gefnogi datblygiad ar y safle.</p> <p>Mae gwasanaethau ar gael er mwyn sicrhau bod tai yn cael eu darparu ar y safle.</p>	<p>Byddai'r safle yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ddiwallu anghenion tai mewn lleoliad cynaliadwy.</p>
<p>8. Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun (<i>Pynciau AAC: tirwedd</i>)</p>	<p>Nid oes gan y safle unrhyw asedau tirwedd penodol o ansawdd ac nid yw wedi'i leoli mewn Ardal Tirwedd Arbennig (fel y nodwyd yn yr Adolygiad o Ardaloedd Tirwedd Arbennig a gynhaliwyd fel rhan o'r gwaith</p>	<p>Er bod y safle yn "dir glas", nid yw'n sensitif o ran effaith amgylcheddol heblaw am bresenoldeb y gwrych.</p>

	<p>paratoi ar gyfer y CDLI ar y Cyd.</p> <p>Mae cynnal a chadw cynefinoedd o wrychoedd presennol yn gyfyngiad.</p> <p>Mae cyfle i sicrhau gwella'r cyrion trefol.</p>	
<p>9. Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hybu mecanweithiau ar gyfer lleihau, aildefnyddio ac ailgylchu gwastraff (<i>Pwnc AAS: asedau deunyddiau, pridd</i>)</p>	<p>Dengys gwybodaeth sydd ar gael ar ddsbarthiad tir amaethyddol nad yw'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yw'r safle.</p> <p>Nid oes unrhyw botensial am wrthdaro gyda defnyddiau tir eraill.</p>	<p>Er bod y safle yn cael ei ddefnyddio er diben amaethyddol ar hyn o bryd, nid yw o ansawdd uchel.</p>
<p>10. Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafndiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi (<i>Pwnc AAS: poblogaeth, iechyd pobl</i>)</p>	<p>Mae'r safle mewn lleoliad da yng nghyswllt ardal adeiledig Llangefni. Mae oddeutu 1km o ganol tref Llangefni.</p> <p>Mae'r B5109 a'r B4422 sydd ger y safle yn brif lwybrau bws ac maent yn cysylltu'r safle â chanol tref Llangefni, Caergybi, Rhosneigr a Bangor. Lleolir safleoedd bws presennol gyferbyn â'r fynedfa amaethyddol bresennol i'r tir oddi ar y B4422 a cheir safleoedd bws ger corneli dwyreiniol a gorllewinol y safle ar y B5109. Bydd y datblygiad yn cefnogi gwasanaethau presennol.</p> <p>Bydd angen mân waith priffyrdd er mwyn gwasanaethu'r datblygiad. Fodd bynnag, ni cheir unrhyw gyfyngiad priffyrdd pwysig fyddai'n atal y safle rhag cael ei ddatblygu.</p>	<p>Byddai'r safle yn cyflwyno datblygiad cynaliadwy. Fe'i lleolir ar brif lwybrau bws a byddai safleoedd bws presennol yn gallu gwasanaethu'r safle.</p> <p>Ni cheir unrhyw rwystr i greu mynediad safle priodol ac mae'r rhwydwaith priffyrdd lleol yn addas ar gyfer cyflawni'r datblygiad.</p>
<p>11. Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaliadwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd (<i>Pwnc AAS: dŵr, bioamrywiaeth</i>)</p>	<p>Nid yw'r safle mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd. Nid yw'n agored i lifogydd dŵr wyneb ychwaith.</p>	<p>Nid yw llifogydd yn debygol o ddigwydd ar y safle.</p>